

Cyfeirnod(au) y Papur

6959/01

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 9: Cyfathrebiadau a Rhwydweithiau

Ionawr 2009

Senario

Agorwch y deunydd hwn ar unwaith. Dylai gael ei ddosbarthu i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos waith cyn yr arholiad.

Sylwer: Nid oes ffeiliau ymarfer ar gyfer yr arholiad hwn.

Caiff y disgrifiad drosodd ei ddefnyddio fel senario ar gyfer y fanyleb uchod, a chaiff ei ailddosbarthu gyda'r papur arholiad. Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. Ni chaniateir mynd â'r deunydd hwn i mewn i'r arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau, sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster a'r pwnc hwn.

Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.

Rhif Log yr Argraffwr

N36021A



N 3 6 0 2 1 A

W850/R6959/57570 1/

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn unol â pholisi hawlfraint Edexcel Limited yn unig. ©2009 Edexcel Limited.

Trowch y dudalen

edexcel 
advancing learning, changing lives

Senario

Dewis o Bersawrau LAURA ELLE

Gwnaeth Laura Lewis a Steven Gee gyfarfod pan oeddent yn gweithio i gorff ymchwil clinigol yn Bracknell. Roedd sylfaen eu partneriaeth fusnes wedi digwydd ar ddamwain i raddau helaeth. Roedd Steven yn gweithio ar ddatblygu tabled alergedd newydd. Roedd yn cynnal arbrawf pan gerddodd Laura, o'r adran farchnata, heibio a chanmol ei sent eillio (*aftershave*). Cafodd Steven ei synnu braidd gan hyn oherwydd nid oedd yn defnyddio sent eillio ac felly fe wnaeth ei galw hi yn ôl. Ymhen tipyn, gwnaethant sylweddoli bod yr arogl yn dod o diwb profi oedd yn cynnwys cymysgedd o gemegion.

Sylwodd Laura yn gyflym ar y posibilrwydd o farchnata'r cymysgedd fel persawr (*perfume*). Fe wnaeth hi berswadio Steven bod hyn yn syniad da a gofynnodd iddo gynnal mwy o arbrofion. Creodd Steven labordy yn ei garej a phrynodd y ddau ohonynt y cemegion rhyngddynt. Dros yr wythnosau nesaf bu Steven yn arbrofi gyda'r cemegion yn y cymysgedd gwreiddiol ac yn y pen draw, creodd rai ryseitiau ar gyfer persawrau.

Yna, aeth Laura at gadwyn fawr o siopau adrannol a gytunodd i stocio dewis (*range*) Laura Elle o bersawrau. Ar ôl cael eu calonogi gan hyn, mae Laura a Steven nawr yn paratoi ar gyfer cynhyrchu ar raddfa fwy o faint. Mae garej Steven yn rhy fach ar gyfer y lefel honno o gynhyrchu, felly maent wedi rhentu adeilad ym Mharc Gwyddoniaeth Bracknell, sydd newydd agor, ac maent wedi dechrau masnachu o dan yr enw Laura Elle.

Mae'r adeilad yn 15 metr o led a 30 metr o hyd ac mae wedi'i rannu yn dair ardal o'r un maint gan barwydydd (*partitions*) ar draws lled yr adeilad. Mae dosbarthu (*despatch*) wrth flaen yr adeilad, y warws yn y canol, a'r cynhyrchu yn y cefn. Dim ond hanner uchder yr adeilad yw'r ardal ddosbarthu ac mae ganddi risiau'n arwain at falconi a thair ystafell. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio fel derbynfya a swyddfeydd ar gyfer Laura a Steven. Mae'r ardaloedd eraill yn ymestyn hyd at do'r adeilad.

Mae gan yr adeilad wasanaethau da gyda phwyntiau ffôn, socedi pŵer, a phibellau cebl, ond nid oes ceblau data na phwyntiau data. Mae cysylltiad opteg ffibr â'r Rhynggrwyd wedi'i gynnwys yn y rhent. Mae hwn yn terfynu mewn blwch seliedig (*sealed*) gerllaw gwaelod y grisiau. Mae gan y blwch un soced RJ45. Mae rheolwyr y Parc Gwyddoniaeth wedi rhoi taflen i Steven yn esbonio sut mae ei gysylltiad â'r Rhynggrwyd yn gweithio.

Mae'r daflen yn dweud:

- bod cyfeiriad Dosbarth C cyhoeddus o 164.58.28.250 wedi cael ei roi iddo
- y gall ef ddefnyddio unrhyw gyfeiriad Dosbarth C preifat ar ei rwydwaith ei hun

Bydd Laura a Steven yn cyflogi staff warws, dosbarthu a swyddfa ar ôl iddynt symud i mewn i'r adeilad.

Mae Laura a Steven yn gallu defnyddio cyfrifiaduron yn ddeheuig ond mae ganddynt ychydig o brofiad o rwydweithiau.

Er enghraifft, maent yn gallu plygio cebl rhwydwaith i mewn neu gysylltu â system WiFi gan ddefnyddio gliniadur.

Eich prosiect

Gofynnwyd i chi gynghori Laura a Steven ar rwydweithiau a dylunio system addas ar gyfer Laura Elle.

Mewn trafodaethau â Laura a Steven rydych yn darganfod mai eu gofynion uniongyrchol yw:

- cyfrifiadur personol ac argraffydd ar rwydwaith yn y tair ystafell i fyny'r grisiau
- cyfrifiadur personol ac argraffydd ar rwydwaith yn yr ardal ddosbarthu
- cyfrifiadur personol ac argraffydd ar rwydwaith yn ardal y warws
- cyfleuster i gysylltu gliniaduron ymwelwyr â'r rhwydwaith pan fyddant yn yr adeilad
- cyfleuster i Steven ddefnyddio rhwydwaith Laura Elle drwy Rwydwaith Rhithwir o'i gyfrifiadur personol gartref
- cyfleuster i Laura ddefnyddio rhwydwaith Laura Elle drwy Rwydwaith Rhithwir o'i gliniadur gartref ac yn ystod teithiau gwerthu.

Dywedir wrthyh hefyd mai eu prif bryderon yw cost, diogelwch, a dibynadwyedd.

Rydych wedi ymweld â'r adeilad gyda Laura a Steven ac rydych yn gyfarwydd â'i drefn. Gallwch ragdybio (*assume*) bod y system bŵer yn ddigonol a bod digon o bibellau (*ducts*) cebl, pwyntiau pŵer, manau ar gyfer pwyntiau data, a phwyntiau gosod (*mounting*) ar gyfer gosod offer.

TUDALEN WAG